Gwasanaeth Llysoedd
a Thribiwnlysoedd EM

**SSCS2A**

# Sut i apelio yn erbyn penderfyniad ynghylch Cynhaliaeth Plant a wnaed gan yr Adran Gwaith a Phensiynau

## 1. Ynghylch yr arweiniad hwn

Nod yr arweiniad hwn yw eich helpu os ydych yn dymuno apelio yn erbyn penderfyniad a wnaed gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) ynghylch Cynhaliaeth Plant.

Mae 'apêl' yn golygu gwneud cais i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM (GLlTEM) am ddyfarniad annibynnol ynghylch a yw penderfyniad gan y DWP yn gywir ai peidio. Gall eich apêl gael ei hystyried gan dribiwnlys sy'n rhan o'r system llysoedd a thribiwnlysoedd ac sy'n gwneud penderfyniadau ynghylch hawliau pobl. Mae'r tribiwnlys yn delio ag anghydfodau ynghylch budd-daliadau nawdd cymdeithasol. Yn y mwyafrif o achosion, mae'n gwneud penderfyniad annibynnol ynghylch apeliadau drwy gynnal gwrandawiad.

### Ynghylch penderfyniadau'r DWP

Mae'r wybodaeth a geir yn yr arweiniad hwn yn berthnasol yn unig i apeliadau yn erbyn penderfyniadau a wnaed gan DWP ynghylch Apeliadau Cynhaliaeth Plant. Nid yw'n berthnasol i apeliadau yn erbyn penderfyniadau a wnaed am fathau eraill o fudd-daliadau, fel Taliad Annibyniaeth Personol, Credyd Cynhwysol, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, adennill iawndal, mesothelioma neu gostau'r GIG. Os ydych yn dymuno apelio yn erbyn penderfyniad a wnaed ynghylch un o'r mathau hyn o fudd-daliadau, mae arnoch angen defnyddio ffurflen SSCS1, SSCS3, SSCS4, SSCS6 neu SSCS7, yn ôl eu trefn.

Gallwch ddarganfod pa ffurflen y mae arnoch angen ei defnyddio yn: www.gov.uk/apelio-penderfyniad-budd-dal.

Cyn y gallwch apelio i'r tribiwnlys, bydd rhaid ichi ofyn i'r penderfyniad am eich budd-dal gael ei ailystyried. Gelwir hyn yn 'gorfodi i ailystyried'.

## 2. Beth i'w ystyried

### A gaf i apelio?

Cewch apelio os oes gennych hawl i apelio dan y gyfraith yn unig. Nid oes gennych hawl i apelio yn erbyn pob penderfyniad sy'n ymwneud â chynhaliaeth plant. Pan fyddwch yn cael llythyr swyddogol yn rhoi penderfyniad, mae'n rhaid iddo ddweud a oes gennych hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad ai peidio. Mae hwn yn ofyniad cyfreithiol a roddir ar y DWP.

Fel canllaw cyffredinol, mae gennych hawl i apelio yn erbyn penderfyniadau ynghylch a oes cyfrifoldeb i dalu am blentyn, ac os felly, faint. Nid oes gennych hawl i apelio yn erbyn penderfyniadau sy'n ymwneud â materion gweinyddol, megis sut y gwneir taliadau neu ddyddiadau talu.

Dylai eich llythyr nodi'n glir p'un a oes gennych hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad a wnaed ai peidio. Fodd bynnag, os yw'r llythyr penderfyniad yn dweud nad oes gennych hawl i apelio, ond eich bod chi'n credu bod y DWP wedi gwneud camgymeriad ac y dylai fod gennych hawl i apelio, gallwch anfon eich apêl i GLlTEM a chael dyfarniad cyfreithiol ynghylch a oes hawl cyfreithiol i wrando eich achos ai peidio. Efallai yr hoffech drafod y mater hwn gyda'r DWP yn gyntaf. Os ydych yn gwneud hyn, mae'n rhaid i chi nodi'n glir yn sail eich apêl eich bod yn credu bod gennych hawl i apelio a pham fod gennych yr hawl honno. Bydd hyn yn galluogi GLlTEM i adnabod y pwynt rydych yn anghytuno yn ei gylch a chymryd y camau angenrheidiol. Os yw'r tribiwnlys yn dyfarnu bod gennych hawl i apelio, gall yr apêl barhau. Ar y llaw arall, os yw'r tribiwnlys yn dyfarnu nad oes gennych hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad hwnnw (hynny yw, bod eich apêl 'allan o awdurdodaeth'), bydd eich apêl yn dod i ben. Mae'r mathau hyn o achosion yn anghyffredin, a byddai'n well i chi gael cyngor gan rywun sydd â dealltwriaeth neu brofiad i wneud yn siŵr eich bod yn gywir. Gall rhwymedïau eraill fod ar gael trwy'r llysoedd ac efallai bydd arnoch angen cael cyngor ar hyn.

### A ddylwn i apelio?

Mae'r arweiniad hwn yn ymwneud â sut i apelio. Ni all ddweud wrthych a oes gennych achos da ai peidio. Bydd staff GLlTEM yn hapus i helpu ag ymholiadau dros y ffôn neu e-bost ynghylch eich apêl wrth iddi fynd drwy'r broses, ond ni allant roi eu barn ynghylch y tebygolrwydd y byddwch yn ennill neu'n colli, neu a ddylech gymryd cam penodol ai peidio. Rhywbeth i chi ei benderfynu yw hynny.

Efallai y bydd modd i chi gael cyngor ynghylch a oes gennych achos da ai peidio gan Ganolfan Cyngor ar Bopeth, gwasanaeth hawliau lles, canolfan gynghori, canolfan y gyfraith, cyfreithiwr neu undeb llafur. Efallai y bydd rhai ohonynt yn fodlon eich helpu i baratoi eich achos a dod i'r gwrandawiad tribiwnlys gyda chi.

Cewch wybodaeth am ffynonellau cymorth o:

- Yellow Pages;
- Gwasanaethau gwybodaeth y Cyngor lleol;

Bydd llawer o'r bobl sy'n gwneud apêl yn dewis cael cyngor a chymorth proffesiynol i wneud hynny.

Os ydych yn penderfynu gofyn am gyngor, cofiwch wneud hynny cyn gynted â phosib – pan fyddwch yn ystyried apelio. Peidiwch â'i adael nes bydd yr apêl wedi cychwyn.

Os bydd oedi cyn ichi gael cyngor, (ni fydd canolfannau cynghori prysur yn gallu trefnu apwyntiad ar eich cyfer ar unwaith) byddwch yn ymwybodol o'r terfyn amser ar gyfer apelio (gweler yr adran 'A yw'ch apêl o fewn amser?'). Os yw'r terfyn amser bron â dod i ben, ni ddylech oedi cyn gwneud apêl tra rydych yn cael cyngor.

Wrth benderfynu a ddylech apelio ai peidio, mae hefyd angen ichi wybod beth all ac na all y tribiwnlys ei wneud ar eich cyfer.

Nid oes gan dribiwnlysoedd bwerau diderfyn. Gallant ond wneud yr hyn y mae'r gyfraith yn caniatáu iddynt ei wneud. Mae gan dribiwnlys bŵer i benderfynu p'un a oes cyfrifoldeb i dalu am blentyn ac, os felly, beth yw'r swm a pha riant dylai ei dalu. Gall y tribiwnlys ddisodli'r penderfyniad rydych yn apelio yn ei erbyn gyda'r penderfyniad maen nhw'n tybio y dylai fod wedi'i wneud.

Ni all y Tribiwnlys:

- Newid y gyfraith. Rhaid i'r tribiwnlys weithredu'r gyfraith fel y mae, hyd yn oed os yw hynny'n arwain at ganlyniad sy'n annheg yn eich barn chi; na
- Delio â chwynion gweinyddol, ynghylch pethau megis oedi neu ddiffyg cwrteisi. Os ydych yn credu eich bod wedi cael gwasanaeth gwael gan y DWP, dylech godi'r mater gyda'u gwasanaethau cwsmeriaid.

## 3. Gwneud eich apêl

### Y Gyfraith

Mae'r gyfraith yn cynnwys rheolau penodol ynghylch apeliadau, a gall GLlTEM ond dderbyn eich apêl os yw'n bodloni'r meini prawf cyfreithiol hyn. Rhaid i'ch apêl:

- Fod yn ysgrifenedig;
- Bod wedi'i hysgrifennu yn Gymraeg neu'n Saesneg;
- Gyda'r rhan fwyaf o achosion, cynnwys copi o'r Hysbysiad Gorfodi i Ailystyried os ydych yn anfon eich apêl drwy'r post (neu hysbysiadau os oes mwy nag un);

- Rhoi rhesymau dros yr apêl; a,
- Fod wedi'i llofnodi gennych chi, oni bai fod y DWP neu lys wedi penodi rhywun arall i weithredu ar eich rhan.

Os nad yw eich apêl yn bodloni pob un o'r meini prawf hyn, efallai y bydd rhaid i GLlTEM ei hanfon yn ôl atoch ac efallai na fydd yn gallu ystyried eich apêl o gwbl oni bai eich bod yn darparu'r manylion hyn.

Bydd arnoch angen dweud wrthym beth yw dyddiad eich llythyr Hysbysiad Gorfodi i Ailystyried (rhan 2 o'r ffurflen SSCS2) a chynnwys copi o'ch hysbysiad gorfodi i ailystyried pan fyddwch yn anfon eich ffurflen apelio i GLlTEM.

Oherwydd y gofyniad cyfreithiol i gynnwys gwybodaeth benodol, mae GLlTEM yn argymell yn gryf eich bod yn defnyddio ffurflen apêl i wneud eich apêl. Mae'r ffurflen hon yn eich helpu i gasglu'r wybodaeth fesul cam ac mae'n cynnwys rhestr wirio y gallwch ei defnyddio i sicrhau eich bod wedi cynnwys popeth. Cewch fanylion am sut i gael gafael arni dros y dudalen ac ar Gov.uk.

Mae'r ffurflen hefyd yn gofyn cwestiynau ichi ynghylch pa fath o wrandawiad yr hoffech, dyddiadau yr hoffech i ni eu hosgoi ac a oes gennych unrhyw anghenion arbennig.

Os yw'n well gennych, cewch wneud eich apêl drwy ysgrifennu llythyr yn unig, ond drwy wneud hynny efallai y byddwch yn gadael allan rhywfaint o'r wybodaeth sy'n ofynnol dan y gyfraith. Hefyd, efallai y bydd rhaid i GLlTEM ysgrifennu atoch ar wahân i ofyn am eich gofynion o ran y gwrandawiad a'r dyddiadau rydych ar gael, a byddai hyn yn achosi oedi yn y broses. Os ydych eisiau gwneud apêl drwy ysgrifennu eich llythyr eich hun, defnyddiwch y ffurflen apêl fel canllaw a rhowch bopeth y mae'r ffurflen apêl yn gofyn amdano yn eich llythyr chi.

**Terfynau amser**

Ar gyfer apeliadau nawdd cymdeithasol, mae gennych un mis calendr i apelio, yn cychwyn o'r dyddiad rydych yn cael eich Hysbysiad Gorfodi i Ailystyried. Ni ystyrir eich apêl fel un wedi'i chyflwyno, hyd nes y mae'n cyrraedd GLlTEM. Er enghraifft, os anfonwyd y llythyr penderfyniad atoch ar 15 Mawrth, rhaid i'ch apêl gyrraedd GLlTEM erbyn 15 Ebrill fan bellaf.

Os byddwch yn anfon eich apêl y tu allan i'r terfyn amser, rhaid ichi roi eich rhesymau pam fod yr apêl yn hwyr. Os na fyddwch yn rhoi rhesymau, efallai y bydd eich apêl yn cael ei dychwelyd i chi. Mae adran arbennig ar y ffurflen apêl lle gallwch roi rhesymau dros anfon yr apêl yn hwyr.

Cofiwch, os yw'r terfyn amser ar fin dod i ben efallai y bydd eich apêl yn hwyr erbyn iddi gyrraedd GLlTEM, hyd yn oed os nad yw'n hwyr ar y diwrnod yr ydych yn ei phostio.

Os na fydd y DWP yn gwrthwynebu'r rhesymau dros anfon yr apêl yn hwyr, yn gyffredinol bydd yr apêl yn mynd rhagddi fel petai wedi cyrraedd mewn pryd. Byddwn yn ysgrifennu atoch os bydd y DWP yn gwrthwynebu'r ffaith fod eich apêl yn hwyr.

**Y ffurflen apêl**

Mae mathau gwahanol o ffurflenni apelio yn ddibynnol ar y math o benderfyniad budd-dal yr ydych yn apelio yn ei erbyn. I apelio yn erbyn penderfyniad ynghylch cynhaliaeth plant, dylech lawrlwytho a llenwi ffurflen SSCS2.

Gallwch ddod o hyd i'r ffurflen yn: www.gov.uk/apelio-penderfyniad-budd-dal.

Hefyd, mae'n bosib bod gan asiantaethau cynghori annibynnol gopïau o'r ffurflen.

Os oes arnoch angen cyngor ar lenwi'r ffurflen, gallwch ffonio GLlTEM ar 0300 123 1142 neu anfon e-bost i contactsscs@justice.gov.uk os ydych yn byw yng Nghymru neu Loegr, neu ffonio 0141 354 8400 neu anfon e-bost i SSCSA-Glasgow@justice.gov.uk os ydych yn byw yn Yr Alban. Gall siaradwyr Cymraeg ffonio 0300 303 5170.

## 4.Llenwi ffurflen SSCS2

Am wybodaeth ar sut i lenwi ffurflen SSCS2 ar gyfer apeliadau cynhaliaeth plant, darllenwch y canllawiau yn yr adran hon. Fel arall, gallwch symud ymlaen i'r adran 'Ar ôl i chi anfon eich apêl'.

Ni ellir cyflwyno apeliadau cynhaliaeth plant ar-lein. Mae angen i chi lawrlwytho copi o ffurflen SSCS2. Bydd arnoch angen dweud wrthym beth yw dyddiad eich llythyr Hysbysiad Gorfodi i Ailystyried (rhan 2) a chynnwys copi o'ch hysbysiad gorfodi i ailystyried pan fyddwch yn anfon eich ffurflen apelio i GLlTEM.

Nid oes angen i bawb lenwi pob rhan o'r ffurflen. Mae gan bobl sy'n gwneud apeliadau wahanol amgylchiadau, felly efallai mai dim ond rhai rhannau o'r ffurflen y bydd angen ichi eu llenwi. Fodd bynnag, rhaid i bawb lenwi rhannau 1,2, 3, 5, 6, 7, 7a a 10 o'r ffurflen SSCS2.

Dylech ddefnyddio inc du i lenwi'r ffurflen. Mae hyn oherwydd bod rhaid i GLlTEM sganio neu lungopïo'r ffurflen ac anfon copi digidol i DWP. Nid yw inc lliw nad yw'n ddu, hyd yn oed inc glas, yn dangos yn dda mewn sganiau a llungopïau. Dylech hefyd lenwi'r ffurflen gan ddefnyddio PRIFLYTHRENNAU fel bod yr holl fanylion pwysig yn glir, oni bai fod yr adran ar y ffurflen yn dweud wrthych am wneud fel arall.

### Adran 1: Eich manylion

Mae'r adran hon yn ymwneud â chi. Pan rydym yn cyfeirio atoch 'Chi' rydym yn golygu'r unigolyn sy'n gwneud yr apêl.

Yma mae angen i chi ddweud wrthym pwy ydych chi a lle'r ydych yn byw fel y gallwn ysgrifennu atoch, ac fel gall y DWP eich adnabod pan fyddwn yn gofyn iddynt egluro pam daethant i'w penderfyniad yn eich achos chi.

Yn yr adran hon bydd angen ichi:

- Roi eich teitl, enw(au) cyntaf a chyfenw;
- Rhoi eich dyddiad geni;
- Rhoi eich Rhif Yswiriant Gwladol;
- Rhoi eich cyfeiriad;
- Rhoi eich rhif ffôn yn ystod y dydd; a,
- Rhoi eich rhif ffôn symudol (os ydych yn berchen ar un).

Pan ddywedwn 'teitl', rydym yn golygu 'Mr', 'Mrs' neu 'Miss' ac ati.

Bydd eich rhif ffôn yn ddefnyddiol i ni os bydd angen inni gysylltu â chi ar fyr rybudd, er enghraifft os bydd dyddiad gwrandawiad ar gael ynghynt na'r disgwyl neu os yw'n haws esbonio rhywbeth i chi dros y ffôn yn hytrach nag yn ysgrifenedig.

Bydd eich cyfeiriad e-bost yn ddefnyddiol hefyd, oherwydd gallwch gael dolen i olrhain eich apêl a gallwch reoli eich apêl ar-lein. Ac os byddwch yn ticio'r blwch neges testun, gallwch gael yr wybodaeth ddiweddaraf am eich apêl ar ffurf negeseuon testun.

## Adran 2: Ynglŷn â'ch apêl Cynhaliaeth Plant

Mae Adran 2 yn ymwneud â'r penderfyniad yr ydych yn apelio yn ei erbyn. Bydd o gymorth os bydd gennych gopi o'ch llythyr penderfyniad, yr 'Hysbysiad Gorfodi i Ailystyried', wrth law pan fyddwch yn llenwi'r rhan hon o'r ffurflen. Dylech gynnwys copi o'r hysbysiad gorfodi i ailystyried gyda'r apêl. Mae'r adran hon yn eich helpu i wneud yn siŵr eich bod yn gwneud hynny.

Yn yr adran hon mae angen ichi:

- Roi dyddiad eich llythyr Hysbysiad Gorfodi i Ailystyried (bydd arnoch angen cynnwys copi ohono pan fyddwch yn anfon eich apêl);
- Rhoi rhesymau os yw eich apêl yn hwyr.

## Adran 3: Ynglŷn â'r unigolyn arall yn yr achos cynhaliaeth plant

Mae'r adran hon ynghylch yr unigolyn arall sy'n rhan o'r achos cynhaliaeth plant. Chi yw'r unigolyn sy'n gwneud yr apêl, ond mae'n rhaid i'r unigolyn sy'n derbyn taliadau cynhaliaeth plant neu sydd i fod i'w talu hefyd gael ei adnabod a'i gynnwys yn yr apêl.

Yn yr adran hon dylech gynnwys teitl, enw(au), cyfenw a chyfeiriad y parti arall i'r apêl. Os nad ydych yn gwybod cyfeiriad yr unigolyn, dangoswch hyn drwy roi tic yn y bwlch 'Na' yn yr adran hon.

Bydd GLlTEM yn cael cyfeiriad y parti arall drwy ysgrifennu at y Grŵp Cynhaliaeth Plant. Os oes mwy nag un unigolyn yn rhan o'r asesiad, dylech gofnodi eu manylion ar ddalen o bapur ar wahân a chynnwys hon gyda'ch ffurflen apêl.

## Adran 4: Ynglŷn â'ch cynrychiolydd (os oes gennych un)

Mae'r adran hon yn ymwneud â'ch cynrychiolydd, os oes gennych un. Nid oes gan bawb gynrychiolydd, ac os nad oes gennych chi un, gallwch anwybyddu'r adran hon a mynd i Adran 5.

Mae gennych hawl i gael cynrychiolydd o'ch dewis chi, ond rhaid i chi drefnu hyn eich hun. Nid oes rhaid i'ch cynrychiolydd fod â chymhwyster cyfreithiol. Gall ef neu hi fod yn ffrind neu'n berthynas. Ond cadwch mewn cof y bydd y cynrychiolydd yn cael gweld tystiolaeth sy'n berthnasol i'r apêl, megis cyfriflenni banc a fyddwch efallai yn ystyried yn gyfrinachol. Wrth ddewis cynrychiolydd, dylech gofio beth yw swyddogaeth cynrychiolydd mewn tribiwnlys.

Dylai bod cynrychiolydd da yn gallu:

- Eich cynghori ynghylch y math o dystiolaeth fydd yn helpu eich achos;
- Cael gafael ar y dystiolaeth honno ichi neu eich helpu i gael gafael arni;
- Cysylltu â'r DWP i weld a ellir setlo'r achos heb fynd i wrandawiad tribiwnlys;
- Ymchwilio i'r gyfraith;
- Paratoi datganiad ysgrifenedig i'r tribiwnlys yn crynhoi eich achos;
- Eich cynghori ar faterion cysylltiedig, gan gynnwys budd-daliadau eraill; a,
- Delio â goblygiadau penderfyniad y tribiwnlys, boed yn ffafriol neu fel arall.

Dim ond gan gynrychiolydd hyfforddedig o asiantaeth ag enw da yr ydych yn debygol o gael cefnogaeth o'r fath. Mae'n bosib y gallai cynrychiolydd gwael ddifetha eich siawns o lwyddo. Bydd y mwyafrif o bobl sydd â chynrychiolydd yn cael eu cynrychioli gan sefydliad proffesiynol megis canolfan gynghori neu wasanaeth hawliau lles.

Yn yr adran hon o'r ffurflen bydd angen ichi:

- Roi enw a chyfeiriad y sefydliad neu'r unigolyn sy'n eich cynrychioli;
- Rhoi rhif ffôn (dewisol) y sefydliad neu'r unigolyn (byddant yn cael negeseuon testun am eich apêl os byddwch yn rhoi rhif ffôn symudol);

- Rhoi enw'r unigolyn yn y sefydliad sy'n eich cynrychioli (os ydych yn gwybod);
- Rhoi eu cyfeiriad e-bost (dewisol - byddant yn cael negeseuon e-bost am eich apêl a dolen fel y gallant ddilyn trywydd eich apêl); a
- Ticiwch y blwch os yw'r cynrychiolydd yn fodlon cael negeseuon testun.

Byddwn yn cysylltu â'ch cynrychiolydd ynghylch eich apêl ac yn rhoi gwybod iddynt am bethau fel dyddiadau gwrandawiadau, a byddwn yn gofyn i'r DWP anfon copi o'r papurau sy'n ymwneud â'ch apêl at eich cynrychiolydd yn ogystal ag atoch chi.

Os ydych eisiau cael cynrychiolydd ond nid ydych wedi llwyddo i gysylltu ag asiantaeth gyngor hyd yma, gallwch dal gyflwyno'ch apêl a dweud wrthym pan fydd gennych gynrychiolydd nes ymlaen. Fodd bynnag, mae'n rhaid ichi wneud hyn yn ysgrifenedig. Mae hyn oherwydd bod arnom angen caniatâd ysgrifenedig gennych i gymryd cyfarwyddiadau gan rywun sy'n gweithredu ar eich rhan. Gan amlaf, bydd eich cynrychiolydd yn trefnu hyn ar eich cyfer.

Cofiwch, hyd yn oed os oes gennych gynrychiolydd, mae bron yn sicr y bydd y tribiwnlys eisiau siarad yn uniongyrchol â chi yn y gwrandawiad, gan ofyn cwestiynau ichi a gwrando ar eich atebion. Mae hyn oherwydd y bydd gennych yr wybodaeth a phrofiad uniongyrchol o'r pethau y bydd y tribiwnlys eisiau clywed amdanynt fwyaf. Dim ond fersiwn ail-law y gallai eich cynrychiolydd ei roi.

## Adran 5: Ynglŷn â chyfrinachedd

Mae'r adran hon yn ymwneud ag os ydych eisiau cadw'ch cyfeiriad yn gyfrinachol oddi wrth y parti arall i'r apêl. Gan fod gan y parti arall hawl i weld yr holl dystiolaeth a gyflwynir fel rhan o'r apêl, bydd achosion lle derbynnir mathau arbennig o dystiolaeth, megis biliau neu gyfriflenni banc, a fydd yn cynnwys eich cyfeiriad cartref. Mae gan y parti arall i'r apêl hawl i weld y dystiolaeth hon.

Os nad ydych yn dymuno i'r parti arall wybod eich cyfeiriad presennol (ac nid ydynt yn ei wybod yn barod) gallwch ofyn i'ch cyfeiriad gael ei gadw'n gyfrinachol. Os ydych yn gwneud hyn, bydd staff GLlTEM yn craffu ar unrhyw ddarn o dystiolaeth a dderbynnir sy'n ymwneud â chi ac yn ei golygu i ddileu unrhyw fanylion cyfeiriad cyn y caiff ei dosbarthu.

Defnyddiwch yr adran hon i ddweud os ydych eisiau cadw eich cyfeiriad cartref yn gyfrinachol.

## Adran 6: Ynglŷn â'ch apêl

Mae'r adran hon yn ymwneud â'r rhesymau dros eich apêl, neu 'seiliau' eich apêl. Dylech ysgrifennu'r rhesymau pam rydych yn meddwl bod y penderfyniad yn anghywir. Nid oes angen ichi ddefnyddio PRIFLYTHRENNAU i lenwi'r adran hon.

Nid oes rhaid i'ch rhesymau fod yn hir neu wedi eu hysgrifennu mewn iaith gyfreithiol, ond mae angen ichi ddweud mwy na dim ond, 'Rwy'n anghytuno'. Dylech esbonio mewn ffordd syml pam rydych yn credu bod y penderfyniad rydych yn apelio yn ei erbyn yn anghywir. Efallai y byddai'n ddefnyddiol ichi ddarllen eich Hysbysiad Gorfodi i Ailystyried neu eich llythyr penderfyniad ac ysgrifennu beth rydych yn anghytuno ag o, a pham. Bydd eich rhesymau yn cael eu hystyried gan dribiwnlys annibynnol sydd ar wahân i DWP. Efallai y byddai'n ddefnyddiol ichi hefyd ddweud beth rydych chi'n meddwl dylai'r penderfyniad cywir fod.

Y mwyaf penodol ydych ynghylch y pwyntiau sy'n destun dadl, yr hawsaf y bydd hi i'r tribiwnlys ddeall beth yw eich cwyn a chanolbwyntio ar hyn cyn y gwrandawiad. Mae croeso ichi atodi tystiolaeth yr ydych yn teimlo y gallai gefnogi eich apêl, ond ni ddylech oedi cyn apelio tra rydych yn dod o hyd i'r dystiolaeth.

Os oes arnoch angen mwy o le i ysgrifennu eich rhesymau, gallwch atodi darn o bapur ar wahân.

## Adran 7: Ynghylch eich dewis o wrandawiad ac adran 7a: Eich gwrandawiad dros y ffôn, drwy fideo neu wyneb yn wyneb

Mae'r ddwy adran hyn yn ymwneud â sut yr hoffech i'r tribiwnlys wneud penderfyniad ynghylch eich apêl.

Fel arfer, bydd GLlTEM yn trefnu gwrandawiad ar gyfer eich apêl dros y ffôn, drwy gyswllt fideo neu wyneb yn wyneb a bydd disgwyl i chi neu eich cynrychiolydd gymryd rhan. Mae GLlTEM yn galw hyn yn 'wrandawiad LLAFAR'.

Mewn gwrandawiad llafar byddwch chi, a'ch cynrychiolydd os oes gennych un, yn cael cyfle i siarad â phanel y tribiwnlys, cyflwyno eich achos ac ateb unrhyw gwestiynau sydd ganddynt. Mae gan y DWP hefyd yr hawl i gymryd rhan mewn gwrandawiad llafar a chyflwyno eu hachos. Gall y tribiwnlys gyfarwyddo pa fath o wrandawiad a gynhelir.

Y dewis arall yn hytrach na gwrandawiad llafar yw bod y tribiwnlys yn dod i benderfyniad ynghylch eich achos heb wrandawiad. Ni fyddwch chi na'r DWP yn cymryd rhan, a bydd y Tribiwnlys yn dod i benderfyniad ar sail yr hyn sydd yn y papurau. Bydd y tribiwnlys yn ystyried eich llythyr apêl, unrhyw dystiolaeth ategol yr ydych wedi'i darparu ac ymateb y DWP i'ch apêl. Mae GLlTEM yn cyfeirio at hyn fel cael 'gwrandawiad PAPUR', er, a bod yn fanwl gywir, nid gwrandawiad ydyw. Cynhelir gwrandawiad ar sail y papurau os bydd pob parti yn cytuno i hynny a bod neb wedi gofyn am wrandawiad llafar.

Bydd y DWP hefyd yn cael cyfle i ddweud pa fath o wrandawiad y byddent yn ei ffafrio.

Cynhelir gwrandawiad llafar dan yr amgylchiadau isod yn unig:

- Os ydych chi'n gofyn am wrandawiad llafar; neu

- Os yw’r DWP yn gofyn am wrandawiad llafar; neu
- Os yw’r tribiwnlys ei hun yn penderfynu y byddai gwrandawiad llafar yn fwy priodol na phenderfynu ynghylch yr achos ar sail y papurau.

Os byddwch yn newid eich meddwl a’ch bod eisiau newid o gael penderfyniad ynghylch eich gwrandawiad ar sail y papurau i wrandawiad llafar, neu’r ffordd arall, rhowch wybod i GLlTEM cyn gynted â phosib. Os nad ydych wedi cael dyddiad gwrandawiad, gallwch wneud hyn dros y ffôn. Os ydych wedi cael dyddiad gwrandawiad, fodd bynnag, bydd angen ichi wneud hyn yn ysgrifenedig. Mae’n rhy hwyr i newid ar ôl i’r tribiwnlys wneud ei benderfyniad ynghylch eich apêl.

Un peth y mae’n debygol y byddwch eisiau gwybod pan fyddwch yn penderfynu a ydych eisiau gwrandawiad ai peidio yw ble byddai gwrandawiad eich apêl yn cael ei gynnal. Mae GLlTEM yn cynnal gwrandawiadau apêl mewn rhwydwaith o dros 100 o leoliadau ledled Cymru, Lloegr a’r Alban. Mae lleoliad tribiwnlys yn y mwyafrif o ddinasoedd a threfi. Bydd GLlTEM yn ceisio trefnu gwrandawiad yn y lleoliad sydd agosaf atoch chi. Ysgrifennwch atom os yw’r lleoliad rydym yn ei gynnig i chi yn anghyfleus. Mae rhestr o’r holl leoliadau ar gael ar ein gwefan: www.gov.uk

Gallwch hefyd ofyn i wrandawiad gael ei gynnal dros y ffôn neu drwy gyswllt fideo drwy roi tic yn y blwch perthnasol. Os ydych eisiau cymryd rhan mewn gwrandawiad dros y ffôn, byddwch angen rhywle tawel a phreifat i siarad, a byddwn angen eich rhif ffôn. Os ydych eisiau cymryd rhan mewn gwrandawiad trwy gyswllt fideo, byddwch angen mynediad i gyfrifiadur neu ddyfais symudol gyda chysylltiad da â’r rhyngrwyd. Byddwch hefyd angen rhywle tawel a phreifat i siarad, a byddwn angen eich cyfeiriad e-bost. Os ydych eisiau cymryd rhan mewn gwrandawiad wyneb yn wyneb, bydd angen ichi deithio i’r gwrandawiad. Bydd eich cais yn mynd gerbron Barnwr Tribiwnlys i’w benderfynu.

Mae gan bron bob un o’n lleoliadau tribiwnlys fynediad i bobl ag anableddau. Rydym yn deall y gall anableddau fod yn gorfforol ac yn feddyliol. Os ydych eisiau cadarnhad y bydd y lleoliad y byddwch yn ei ddefnyddio yn addas ar gyfer eich anghenion unigol chi, bydd cyfle ichi nodi eich gofynion yn Adran 8 o’r ffurflen apêl.

Ar ôl i chi benderfynu pa fath o wrandawiad rydych eisiau, ticiwch y blwch i ddangos eich dewis ar y ffurflen. Mae dau ddewis:

- ‘Rwyf eisiau cymryd rhan yn y gwrandawiad’; neu
- ‘Nid wyf eisiau cymryd rhan yn y gwrandawiad’.

Ticiwch un o’r blychau i wneud eich dewis.

Os ydych wedi ticio'r blwch i ddweud eich bod eisiau cymryd rhan mewn gwrandawiad, dylech fynd ymlaen i Adran 7a, lle mae opsiynau i chi gymryd rhan yn y gwrandawiad dros y ffôn, drwy gyswllt fideo neu wyneb yn wyneb. Os ydych wedi ticio'r bwlch i ddweud nad ydych eisiau cymryd rhan mewn gwrandawiad, gallwch fynd yn syth i Adran 10.

## Adran 8: Cymorth yn eich gwrandawiad

Mae'r adran hon yn ymwneud â'ch anghenion a'ch gofynion ar gyfer gwrandawiad llafar. Os nad ydych eisiau gwrandawiad llafar, dylech anwybyddu'r adran hon. Os oes arnoch angen ysgrifennu yn unrhyw un o'r blychau yn yr adran hon, nid oes rhaid ichi ddefnyddio PRIFLYTHRENNAU.

Dywedwch wrthym yma os oes angen cyfieithydd neu ddehonglydd arnoch i'ch helpu yn y gwrandawiad.

Fel y llysoedd, mae tribiwnlysoedd yn mynnu defnyddio cyfieithwyr a dehonglwyr annibynnol, proffesiynol. Nid yw dibynnu ar ffrind neu berthynas yn dderbyniol. Gall eich cyfieithydd fod yn rhywun sy'n cyfieithu ar lafar o'r Saesneg i iaith arall, neu yng Nghymru o Gymraeg i Saesneg, neu gall fod yn ddehonglydd iaith arwyddion sy'n cyfieithu iaith lafar i Iaith Arwyddion Prydain. Os ydych yn ticio 'Oes' yn yr adran hon, mae'n rhaid ichi hefyd gofnodi pa iaith a thafodiaith sydd eu hangen.

Pan fydd GLlTEM yn trefnu eich gwrandawiad, byddwn yn sicrhau y darperir cyfieithydd/dehonglydd sy'n bodloni eich anghenion.

Mae angen inni wneud yn siŵr fod eich gwrandawiad yn cael ei gynnal mewn lleoliad sy'n addas i chi ac y gallwch gael mynediad iddo'n rhwydd. Dywedwch wrthym yn yr adran hon am unrhyw anghenion arbennig sydd gennych, neu unrhyw addasiadau rhesymol yr hoffech i ni wneud, i'ch galluogi chi fynychu gwrandawiad. Gall hyn fod yn rhywbeth fel dolen glyw neu ofynion arbennig oherwydd anabledd neu broblem symudedd. Rydym yn deall y gall hyn fod ar gyfer amrywiaeth o anableddau corfforol a meddyliol.

## Adran 9: Pa bryd yr ydych ar gael ar gyfer gwrandawiad

Os ydych eisiau cymryd rhan yn y gwrandawiad, dylech ddefnyddio'r adran hon i nodi unrhyw ddyddiadau pan na fyddwch ar gael ar gyfer gwrandawiad.

Yn yr adran hon mae angen ichi roi tic yn un o'r ddau flwch, i ddangos:

- Os gallwch fod ar gael pa bryd bynnag y bydd y gwrandawiad yn cael ei drefnu; neu
- A oes ddyddiadau yn y tri i wyth mis nesaf pan na fyddwch ar gael i gymryd rhan mewn gwrandawiad.

Fel arfer byddwn yn rhoi o leiaf 14 diwrnod o rybudd o wrandawiad. Fodd bynnag, os byddwch yn dweud wrthym y gallwch fod yn rhydd pa bryd bynnag y cynhelir y gwrandawiad, byddwn yn cymryd hyn fel caniatâd i roi llai na 14 diwrnod o rybudd i chi os bydd dyddiad gwrandawiad ar gael yn gynharach nag yr oeddem yn disgwyl.

Os oes dyddiadau pan na fyddwch ar gael, dylech ddweud wrthym beth yw'r dyddiadau hynny.

Efallai bod dyddiad rheolaidd pan nad ydych ar gael: er enghraifft, pob dydd Iau oherwydd rhesymau domestig neu ymrwymiadau eraill. Neu efallai eich bod yn ymwybodol o ddyddiadau penodol pan na fyddwch ar gael, er enghraifft oherwydd apwyntiadau ysbyty neu wyliau yr ydych wedi'i drefnu'n barod. Dylech ystyried ar ba ddyddiadau na fyddwch ar gael am y 3 i 8 mis nesaf. Cofiwch, gallwch ddweud wrth GLlTEM am unrhyw newid i'r dyddiadau hyn drwy ein ffonio, anfon neges e-bost neu ysgrifennu atom.

## Adran 10: Llofnodi a phostio

Mae'r adran hon yn ymwneud â'ch llofnod. Mae'n ofyniad cyfreithiol i'ch apêl gael ei llofnodi. Ysgrifennwch eich enw mewn priflythrennau yn y blwch priodol, yna llofnodwch eich enw yn y blwch o dan eich enw a chofnodwch y dyddiad pan wnaethoch lofnodi'r ffurflen yn y blwch priodol. Os na fyddwch yn llofnodi eich ffurflen apêl, efallai y bydd rhaid i GLlTEM ddychwelyd yr apêl atoch i chi ei llofnodi. Os ydych wedi enwi cynrychiolydd yn Adran 4, bydd llofnodi'r ffurflen apêl hefyd yn rhoi eich caniatâd i GLlTEM ohebu â nhw a thrafod eich apêl gyda nhw petai angen i ni wneud hynny.

## Y camau nesaf

## Ble i anfon eich apêl

Mae'r adran hon yn dweud wrthych ble i anfon eich apêl.

Os ydych yn byw yng Nghymru neu yn Lloegr, anfonwch eich apêl i:

Apeliadau Budd-daliadau GLlTEM

Blwch Post 12626

Harlow

CM20 9QF

Bydd arnoch angen darparu eich amlen eich hun â chyfeiriad a stamp arni i wneud hyn.

Os ydych yn byw yn Yr Alban, anfonwch eich apêl i'r cyfeiriad hwn:

GLlTEM, Canolfan Apeliadau Nawdd Cymdeithasol a Chynnal Plant

Blwch Post 13150

Harlow

CM20 9TT

**Gwirio'r ffurflen apêl**

Mae yna nodyn atgoffa ar ddiwedd y ffurflen apêl i'ch atgoffa bod angen ichi gynnwys copi o'ch llythyr gorfodi i ailystyried. Gallwch hefyd gael diweddariadau am eich apêl ar ffurf negeseuon e-bost a thestun a gallwch hefyd olrhain eich apêl ar-lein os ydych wedi rhoi eich cyfeiriad e-bost a'ch rhif ffôn symudol yn Adran 1 y ffurflen.

## 6. Ar ôl ichi anfon eich apêl

### A fydd fy apêl yn cael ei derbyn?

Ar ôl ichi anfon eich apêl, bydd GLlTEM yn ei gwirio i wneud yn siŵr ei bod yn cydymffurfio â'r holl ofynion cyfreithiol er mwyn iddi gael ei derbyn fel apêl ddilys.

Os oes unrhyw broblemau gyda'ch apêl, bydd GLlTEM yn ei dychwelyd atoch gyda llythyr yn esbonio beth yw'r broblem a beth y gallwch ei wneud i ddatrys y broblem. Os bydd hyn yn digwydd, dylech ddilyn y cyngor a roddir yn y llythyr. Os na wnewch hynny, efallai y bydd GLlTEM yn 'dileu' eich apêl, neu'n dod â'ch apêl i ben, oherwydd nad ydych wedi darparu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani.

Mewn rhai amgylchiadau, gall GLlTEM ganiatáu i'ch apêl gael ei derbyn, hyd yn oed os nad yw'n bodloni pob un o'r gofynion. Gelwir y broses hon yn 'hepgor' gofyniad, sy'n golygu y gall GLlTEM, mewn rhai amgylchiadau, ganiatáu i'r apêl fynd rhagddi drwy hepgor rhai o'r gofynion technegol sydd fel arfer yn orfodol. Mae'r amgylchiadau lle gellir gwneud hyn yn amrywio'n sylweddol, felly, cyn belled â phosib, dylech ddarparu'r holl wybodaeth sydd ei hangen yn hytrach na dibynnu ar ddisgwyliad y bydd GLlTEM yn caniatáu hepgoriad.

Os gellir derbyn eich apêl fel un ddilys, bydd GLlTEM yn anfon llythyr cydnabod atoch. Yn dibynnu a ydych eisoes wedi darparu manylion eich gofynion ar gyfer y gwrandawiad (er enghraifft, ar y ffurflen apêl), efallai y bydd GLlTEM hefyd yn anfon ffurflen ymholiad atoch i holi beth yw'r rhain. Os ydych wedi gwneud apêl ar y ffurflen a'ch bod wedi ateb pob un o'r cwestiynau, ni ddylai bod angen gwneud hyn.

Bydd GLlTEM hefyd yn anfon copi o'ch apêl i DWP ac yn gofyn iddynt ddarparu 'ymateb' i'ch apêl. Adroddiad ynghylch eich apêl gan y DWP yw'r ymateb ac mae'n esbonio sut y daethant i'w penderfyniad. Mae terfyn amser ar gyfer darparu ymateb. Ar gyfer apeliadau cynhaliaeth plant, y terfyn amser yw 42 diwrnod. Mae gan y DWP hefyd yr hawl i ofyn am fwy o amser ac, os bydd hynny'n digwydd, bydd barnwr yn ystyried a yw eu cais yn un dilys ai peidio. Byddwn yn ysgrifennu atoch os bydd hyn yn digwydd.

Ar ôl i'ch apêl ein cyrraedd, byddwn yn cysylltu â chi naill ai drwy anfon neges e-bost atoch (os ydych wedi rhoi eich cyfeiriad e-bost i ni) neu lythyr, a byddwn yn cynnwys manylion ynghylch sut y gallwch gyflwyno rhagor o dystiolaeth i'r Tribiwnlys.

## 7. Beth fydd yr Adran Gwaith a Phensiynau yn gwneud gyda fy apêl?

### Ystyried yr apêl

Bydd y DWP yn ailedrych ar eu penderfyniad ar ôl ystyried yr wybodaeth rydych wedi'i rhoi yn eich apêl ac unrhyw dystiolaeth newydd neu ychwanegol rydych wedi'i darparu. Mae gan y DWP yr opsiwn, ar unrhyw adeg hyd at y gwrandawiad tribiwnlys, i newid y penderfyniad rydych yn apelio yn ei erbyn os ydynt yn credu bod rhesymau dros wneud hynny.

Os byddant yn penderfynu adolygu'r penderfyniad o'ch plaid chi, bydd y DWP yn rhoi gwybod i GLlTEM am hyn a bydd eich apêl yn colli grym yn awtomatig (hynny yw, bydd yn dod i ben).

Byddwn yn ysgrifennu atoch os bydd hyn yn digwydd. Bydd gennych hawl i apelio yn erbyn penderfyniad newydd y DWP hefyd os ydych yn dymuno ei herio. Os yw'r DWP yn bwriadu gwneud hyn, byddant yn cysylltu â chi yn gyntaf i holi a ydych yn fodlon â'r penderfyniad newydd ac ni fyddant yn bwrw ymlaen oni bai eich bod yn cytuno.

**Gwrthwynebu'r apêl**

Mae gan y DWP hefyd yr hawl i wrthwynebu eich apêl os ydynt o'r farn fod gwall yn eich apêl am ryw reswm. Yn gyffredinol, bydd hyn oherwydd eu bod yn credu bod GLlTEM o bosib heb sylwi ar rywbeth ac wedi derbyn apêl sy'n annilys ym marn y DWP. Gall y DWP wrthwynebu apêl am nifer o resymau, ond y prif resymau yw:

- Oherwydd ei bod yn erbyn penderfyniad sydd heb yr hawl i apelio;
- Oherwydd ei bod yn hwyr a bod y rhesymau dros gyflwyno'r apêl yn hwyr yn afresymol;
- Oherwydd nad yw'n cynnwys digon o wybodaeth i ganfod y penderfyniad neu roi sail yr apêl;
- Oherwydd nad oes siawns rhesymol y bydd yn llwyddiannus.

Os bydd y DWP yn gwrthwynebu eich apêl byddant yn ysgrifennu at GLlTEM. Efallai y byddwn ni wedyn yn anfon copi o'u gwrthwynebiad atoch ac efallai y byddwn yn eich gwahodd i wneud sylwadau arno cyn ei gyfeirio at Farnwr. Bydd y Barnwr yn adolygu eich achos ac yn penderfynu a yw dadleuon y DWP yn rhai dilys ai peidio.

Os bydd eich apêl yn mynd yn ei blaen heb wrthwynebiad, bydd y DWP yn anfon atoch chi ac at GLlTEM gopi o'u 'hymateb' i'ch apêl. Bydd hwn yn cyrraedd fel bwndel o bapurau, a allai gynnwys hyd at 150 o dudalennau neu fwy, gan ddibynnu ar y math o apêl a hanes y mater. Peidiwch â gadael i faint y bwndel eich digalonni; byddwch eisoes yn gyfarwydd â llawer o'r cynnwys, megis copïau o'ch ffurflen hawlio. Gall rhai ymatebion fod yn llawer byrrach oherwydd y materion dan sylw. Mae'r ymateb yn cynnwys:

- Y penderfyniad rydych yn apelio yn ei erbyn;
- Crynodeb o'r ffeithiau perthnasol;
- Y rhesymau dros y penderfyniad;
- Dyfyniadau o'r gyfraith berthnasol;
- Copi o'ch ffurflen neu lythyr apêl;

- Copïau o ddogfennau sy'n berthnasol i'r apêl (e.e. ffurflen hawlio, biliau a chyfriflenni banc, llythyrau, cyfrifiadau budd-daliadau neu gynnal plant).

Bydd yr ymateb yn cyrraedd rhai wythnosau ar ôl ichi anfon eich apêl yn wreiddiol. Os ydych wedi rhoi enw cynrychiolydd ar eich ffurflen apêl, anfonir copi o'r ymateb at eich cynrychiolydd hefyd.

Pan fydd yr ymateb yn eich cyrraedd, dylech ei ddarllen neu ei drafod gyda'ch cynrychiolydd (os oes gennych un). Bydd eich cynrychiolydd yn edrych ar yr achos y mae'r DWP yn ei gyflwyno ac yn rhoi cyngor ichi o ran a oes gennych chi achos ai peidio. Os nad oes gennych gynrychiolydd, mae'n rhaid i chi ddarllen drwy'r papurau a dod i benderfyniad eich hun.

Os byddwch yn penderfynu peidio â pharhau â'ch apêl ('tynnu eich apêl yn ôl'), rhaid ichi roi gwybod i ni neu bydd GLlTEM yn bwrw ymlaen ac yn rhoi eich achos gerbron tribiwnlys. Gallwch dynnu eich apêl yn ôl drwy ffonio neu ysgrifennu atom.

## 8. Ar ôl i'r Adran Gwaith a Phensiynau ymateb

**Beth fydd yn digwydd nesaf?**

Ar ôl i ymateb y DWP gyrraedd, bydd GLlTEM yn dechrau gwneud trefniadau ar gyfer gwrando eich apêl.

Byddwn hefyd yn ysgrifennu at yr unigolyn arall sy'n rhan o'r apêl i ofyn os ydynt eisiau cymryd rhan yn y gwrandawiad. Os bydd unrhyw unigolyn arall yn yr apêl yn dewis mynychu gwrandawiad, yna bydd gwrandawiad yn cael ei drefnu, ond dim ond os ydych eisiau mynychu y mae'n rhaid i chi wneud hynny. Os ydych wedi dewis peidio â chymryd rhan yn y gwrandawiad, byddwn yn ysgrifennu atoch ar ôl cael eich ymateb yn cadarnhau ein bod yn barod i drefnu gwrandawiad. Bydd y llythyr hefyd yn dweud, os oes gennych unrhyw dystiolaeth bellach i'w chyflwyno i gefnogi eich apêl, y dylech ei hanfon at GLlTEM cyn pen 28 diwrnod neu roi gwybod i GLlTEM os oes arnoch angen mwy o amser. Bydd y llythyr yn eich gwahodd i gysylltu â GLlTEM os oes unrhyw newid i'r manylion yr ydych wedi'u cyflwyno'n flaenorol, megis eich dewis o wrandawiad. Er enghraifft, gallwch ofyn i wrandawiad gael ei gynnal dros y ffôn neu drwy gyswllt fideo, a rhoddir eich cais gerbron Barnwr Tribiwnlys i benderfynu.

Dylech wirio'r llythyr hwn i wneud yn siŵr ein bod wedi cofnodi'ch gofynion yn gywir. Os bydd unrhyw newid, rhaid ichi ddweud wrthym amdano. Gallwch wneud hynny dros y ffôn neu yn ysgrifenedig. Gallwch hefyd ddweud wrthym os nad ydych eisiau apelio dim mwy.

Os nad ydych eisiau apelio dim mwy, y cyfan sydd angen ei wneud yw rhoi gwybod i GLlTEM eich bod yn dymuno tynnu'r apêl yn ôl. Dylech wneud hyn cyn gynted ag y byddwch wedi penderfynu tynnu'r apêl yn ôl neu bydd GLlTEM yn parhau â'r trefniadau ar gyfer eich apêl. Gallwch wneud hyn drwy ffonio'r rhif sydd yn y llythyr.

Os yw unrhyw fanylion eraill wedi newid, megis eich dewis o’r math o wrandawiad, eich cyfeiriad neu unrhyw beth y credwch sy’n berthnasol i’ch apêl, gofynnwn yn garedig ichi ein ffonio fel y gallwn ddiweddaru ein cofnodion. Os bydd newid o ran pwy sy’n eich cynrychioli, rhaid ichi roi gwybod am hynny yn ysgrifenedig.

Os ydych wedi dewis cael gwrandawiad llafar, bydd GLlTEM yn ysgrifennu atoch i gadarnhau’r manylion sydd gennym ar eich cyfer, felly os ydych wedi darllen ymateb y DWP a bod unrhyw beth wedi newid y dylem gael gwybod amdano, gadewch inni wybod cyn gynted â phosib. Gall hyn fod yn rhywbeth fel dyddiad pan nad ydych ar gael , neu efallai eich bod wedi newid eich meddwl ac yr hoffech i’ch apêl gael ei phenderfynu ar sail y papurau yn hytrach na’ch bod chi’n dod i wrandawiad.

Unwaith eto, os ydych eisiau tynnu eich apêl yn ôl, mae’n rhaid ichi ddweud wrthym cyn gynted ag yr ydych wedi penderfynu gwneud hynny. Fel arall, bydd GLlTEM yn parhau i wneud trefniadau ar gyfer eich apêl, megis neilltuo ystafelloedd ar gyfer eich gwrandawiad a dyrannu barnwyr i eistedd ar eich achos a threfnu i staff y tribiwnlys fod yn bresennol i gwrdd â chi pan fyddwch yn mynychu.

**Rhoi eich achos gerbron y tribiwnlys**

Os ydych wedi penderfynu cael penderfyniad ynghylch eich apêl ar sail y papurau, ni fydd GLlTEM yn rhoi gwybod ichi ar ba ddyddiad y gwrandewir eich achos. Mae hyn oherwydd na fyddwch yn dod i’r gwrandawiad a gall GLlTEM geisio rhoi eich achos gerbron tribiwnlys ar fyr rybudd.

Os ydych wedi dewis cael gwrandawiad llafar, bydd GLlTEM yn rhoi gwybod ichi am fanylion y gwrandawiad yn ysgrifenedig. Byddwn yn rhoi o leiaf 14 diwrnod o rybudd o ddyddiad y gwrandawiad i chi, oni bai eich bod wedi rhoi gwybod i ni y byddwch yn derbyn llai o rybudd na hyn. Bydd y llythyr sy’n rhoi gwybod ichi am y gwrandawiad yn dweud wrthych beth fydd amser a dyddiad eich gwrandawiad a chyfeiriad y ganolfan tribiwnlys. Bydd y llythyr hefyd yn cynnwys gwybodaeth ynghylch ad-dalu costau teithio a threuliau eraill yn ogystal â chyfarwyddiadau ar sut i gyrraedd y ganolfan wrandawiadau, gwybodaeth ynghylch cysylltiadau trafnidiaeth, hygyrchedd a chyfleusterau yn y lleoliad.

Ar ôl trefnu dyddiad, byddwn yn gwneud ein gorau i osgoi canslo. Gobeithiwn, yn gyfnewid am hyn, y byddwch yn osgoi gofyn i gael gohirio’r gwrandawiad, heblaw mewn amgylchiadau eithriadol, megis salwch neu brofedigaeth. Os na allwch fod yn bresennol, dylid cyflwyno unrhyw gais i gael gohirio’r gwrandawiad yn ysgrifenedig. Byddwn y cyfeirio’r cais at Farnwr Tribiwnlys a fydd yn gwneud penderfyniad yn ei gylch. Mae gan y tribiwnlys y pŵer i wrando eich apêl yn eich absenoldeb. Oherwydd hyn mae’n bwysig nad ydych chi neu eich cynrychiolydd, os oes gennych un, yn cymryd yn ganiataol y bydd eich apêl yn cael ei gohirio, nes eich bod wedi cael cadarnhad gennym ni.

Os byddwch mewn sefyllfa lle na allwch roi llawer o rybudd nad ydych ar gael, ar ddiwrnod y gwrandawiad er enghraifft, ac ni allwch wneud cais ysgrifenedig am ohiriad, dylech ffonio swyddfa'r tribiwnlys cyn gynted â phosib. Bydd GLlTEM yn rhoi gwybod i'r tribiwnlys am eich amgylchiadau a bydd y tribiwnlys yn penderfynu a fydd yn gwneud penderfyniad ynghylch eich apêl yn eich absenoldeb ynteu'n gohirio'r apêl tan ddiwrnod arall pan fyddwch yn gallu bod yn bresennol.

## 9. Paratoi ar gyfer y gwrandawiad tribiwnlys

Bwriedir i'r wybodaeth isod roi arweiniad i'r holl bartïon sy'n ymwneud ag apêl.

### Tystiolaeth

Byddwch eisiau ystyried pa dystiolaeth y mae arnoch ei hangen i gefnogi eich achos, gan fod y mwyafrif o apeliadau'n cynnwys rhywfaint o ddadlau dros ffeithiau'r achos.

Bydd y DWP wedi nodi yn eu hymateb pa dystiolaeth y byddant yn dibynnu arni i gefnogi'r penderfyniad yr ydych wedi apelio yn ei erbyn. Mae'n anarferol i'r DWP gyflwyno unrhyw dystiolaeth newydd yn y gwrandawiad tribiwnlys.

Yn gyntaf oll, y math o dystiolaeth y gallech ei chyflwyno yw'r hyn y gallwch chi eich hun ddweud wrth y tribiwnlys. Weithiau mae'n hawdd anghofio bod yr hyn a ddywedwch wrth y tribiwnlys yn cael ei ystyried yn 'dystiolaeth'. Bydd y tribiwnlys yn ei drin fel tystiolaeth, gan roi'r pwysigrwydd priodol iddo a chofnodi'r prif bwyntiau yn ysgrifenedig.

Os hoffech i rywun fynychu'r gwrandawiad fel tyst, dylech ofyn iddynt a sicrhau eu bod yn gwybod pryd a lle i fynychu. Nid yw rhywun sydd ddim yn fodlon bod yn dyst yn wirfoddol yn debygol o fod yn dyst da. Byddai o gymorth pe baech yn dweud wrth GLlTEM os ydych yn bwriadu dod â thyst gyda chi. Os ydych eisiau i rywun o'r DWP fod yn dyst (er enghraifft, aelod o staff a gynhaliodd gyfweliad â chi), dylech wneud cais ysgrifenedig i swyddfa berthnasol y DWP yn gofyn i'r unigolyn dan sylw fod yn bresennol fel tyst. Gallwch ysgrifennu at GLlTEM os byddant yn gwrthod. Ond cofiwch nad oes gan y tribiwnlys bŵer cyfreithiol i orfodi rhywun i fod yn bresennol.

Gall y dystiolaeth fod ar ffurf dogfen hefyd. Yn ddibynnol wrth gwrs ar y ffeithiau penodol yr ydych eisiau eu profi, er enghraifft, gallai hyn fod yn gopi o gyfrifon yn dangos eich enillion os ydych yn hunangyflogedig, neu gopi o ohebiaeth a gawsoch gyda chyn-bartner ynghylch trefniadau gofal a rennir.

Os oes gennych ddogfennau yr ydych eisiau eu defnyddio i gefnogi eich apêl, anfonwch nhw (neu lungopïau ohonynt) atom mor fuan â phosib yn y broses apelio. Peidiwch ag aros nes byddwch yn y gwrandawiad tribiwnlys.

Os byddwch yn cyflwyno dogfennau pwysig ar y funud olaf, gallai'r tribiwnlys benderfynu bod rhaid gohirio'r gwrandawiad, fel bod y tribiwnlys a'r DWP yn cael cyfle teg i ystyried y dystiolaeth hwyr yn llawn ac nad ydynt yn cael eu rhuthro.

Pan fyddwch yn anfon dogfennau atom fel tystiolaeth, cofiwch gynnwys y ddalen flaen gyda'r cyfeirnod 16 digid yr ydym wedi'i roi i chi. Byddwn yn gwneud copïau ohonynt ac yn eu hanfon i'r DWP cyn eu dychwelyd atoch. Cadwch mewn cof, fel arfer, bod gan y DWP a'r rhiant arall hawl i weld unrhyw ddogfennau y byddwch yn eu hanfon atom. O ran tegwch, bydd y ddwy ochr yn cael cyfle i weld a herio'r dystiolaeth sy'n mynd gerbron y tribiwnlys.

Mae ychydig o eithriadau i'r rheol hon. Mewn achosion cynhaliaeth plant, gallwch ofyn i'r wybodaeth sy'n datgelu eich lleoliad gael ei chadw'n gyfrinachol. Mewn achosion ble mae tystiolaeth feddygol bellach ar gael, sydd efallai yn niweidiol (er enghraifft, gallai ddatgelu prognosis a all achosi gofid nad ydych yn ymwybodol ohono ar hyn o bryd), efallai bydd y tribiwnlys, yn yr amgylchiadau eithriadol hynny, yn penderfynu peidio â datgelu'r wybodaeth honno. Nid yw hyn yn digwydd yn aml iawn.

Eich cyfrifoldeb chi, nid y tribiwnlys, yw paratoi eich achos. Mae'r tribiwnlys yn niwtral. Os ydych chi (neu eich cynrychiolydd) yn meddwl y byddai tystiolaeth ychwanegol yn cefnogi eich achos, dylech geisio cael gafael ar y dystiolaeth honno yn fuan yn ystod y broses apelio.

Os byddwch yn cael tystiolaeth ychwanegol, anfonwch y dystiolaeth honno atom cyn gynted â phosib. Peidiwch ag aros tan ddyddiad eich gwrandawiad.

**Ymchwilio i'r gyfraith**

Bydd penderfyniad y tribiwnlys yn seiliedig ar gymhwyso'r gyfraith berthnasol i ffeithiau'r achos. Yn aml iawn mae cyfraith nawdd cymdeithasol a chynnal plant yn gymhleth ac yn agored i gael ei dehongli'n wahanol. Gallwch ddod o hyd i ganllawiau ar ystyr y gyfraith a basiwyd gan y Senedd ym mhenderfyniadau Comisiynwyr Nawdd Cymdeithasol a Chynnal Plant (sydd bellach yn rhan o'r Uwch Dribiwnlys) a'r Llysoedd.

Gallwch ymchwilio i'r gyfraith

- Mewn llyfrgelloedd cyhoeddus;
- Ar wefannau megis www.legislation.gov.uk neu Ddeddfau Seneddol a rheoliadau, a gov.uk ar gyfer penderfyniadau'r Tribiwnlys Uwch: www.gov.uk/administrative-appeals-tribunal-decisions
- Mewn cyfeirlyfrau cyfreithiol (bydd y rhain gan gynrychiolwyr proffesiynol).

Efallai y gwelwch fod yr ymateb a gewch gan y DWP yn cynnwys cyfeiriadau at benderfyniadau penodol yr Uwch Dribiwnlys y mae'r DWP yn ystyried yn berthnasol i'r materion cyfreithiol yn eich apêl. Efallai y byddwch chi, neu eich cynrychiolydd, eisiau cyflwyno penderfyniadau eraill yr Uwch Dribiwnlys. Os byddwch, anfonwch y manylion atom mewn da bryd cyn y gwrandawiad.

Ni all GLlTEM ymchwilio i'r gyfraith ar eich rhan na darparu dyfyniadau ichi.

**Paratoi eich ymateb eich hun**

Os ydych o'r farn nad yw'r ymateb a gawsoch gan y DWP yn rhoi crynodeb cywir o'ch achos, efallai y byddwch yn dymuno paratoi eich ymateb eich hun, yn nodi'r ffeithiau fel yr ydych chi'n eu gweld a'r gyfraith fel yr ydych chi'n ei dehongli. Dylech anfon eich ymateb atom cyn y gwrandawiad. Byddwn yn anfon copi i DWP.

Cofiwch, byddwn yn anfon yr holl bapurau sy'n ymwneud â'r apêl at aelodau'r tribiwnlys o leiaf 10 diwrnod cyn dyddiad y gwrandawiad. Mae hyn yn rhoi cyfle i'r tribiwnlys astudio'r papurau a chanfod unrhyw broblemau a all effeithio ar gynnal y gwrandawiad. O ganlyniad, mae llai o risg o orfod gohirio a bydd hyd y gwrandawiad yn lleihau. Felly, mae arnom angen ichi anfon atom eich tystiolaeth ysgrifenedig ac unrhyw argymhellion yr hoffech eu gwneud mewn da bryd cyn y gwrandawiad.

Cofiwch y byddwn yn anfon copi o unrhyw dystiolaeth a gawn gennych i DWP ac at yr unigolyn arall sydd ynghlwm wrth yr apêl ar gyfer apeliadau cynhaliaeth plant. Gorau po gyntaf y bydd y DWP yn cael eich tystiolaeth, iddynt allu gweld cyn gynted â phosib a yw'n caniatáu iddynt newid y penderfyniad y maent wedi'i wneud ai peidio.

## 10. Cadw mewn cysylltiad

**Pethau y mae angen inni wybod amdanynt os ydynt yn newid**

Mae'n bwysig eich bod yn rhoi gwybod inni os bydd eich amgylchiadau'n newid o gwbl, fel y gallwn ddarparu'r math o wrandawiad yr ydych eisiau, ymateb i unrhyw anghenion arbennig sydd gennych a chyfathrebu â chi yn y cyfeiriad cywir. Mae GLlTEM a'r DWP yn sefydliadau annibynnol, felly os ydych wedi hysbysu'r DWP o gyfeiriad newydd, bydd rhaid i chi wneud yr un peth ar gyfer GLlTEM. Gallwch wneud hyn yn ysgrifenedig, drwy anfon neges e-bost, drwy'r gwasanaeth 'Rheoli eich Apêl' neu dros y ffôn.

Mae'n rhaid ichi ddweud wrthym:

- Os yw eich cyfeiriad cartref wedi newid;
- Os oes gennych gynrychiolydd newydd yn gweithredu ar eich rhan (neu fod eich cynrychiolydd wedi newid);
- Os ydych wedi newid eich meddwl ynghylch y math o wrandawiad rydych eisiau (llafar/papur);
- Os na allwch fod yn bresennol neu os ydych wedi penderfynu nad ydych am fod yn bresennol mewn gwrandawiad sydd wedi'i drefnu; neu
- Os nad ydych eisiau apelio mwyach – rydych eisiau 'tynnu eich apêl yn ôl'.

Os oes gennych gynrychiolydd newydd, mae'n rhaid ichi roi gwybod inni yn ysgrifenedig gan fod arnom angen eich caniatâd ysgrifenedig i gymryd cyfarwyddiadau gan rywun sy'n gweithredu ar eich rhan. Fel arfer, bydd eich cynrychiolydd yn trefnu hyn ar eich cyfer.

## 11. Mynychu'ch gwrandawiad

Bwriedir i'r wybodaeth isod roi arweiniad i'r holl bartïon sy'n ymwneud â'r apêl.

**Y rhybudd o wrandawiad**

Byddwch wedi cael hysbysiad ysgrifenedig o ddyddiad a lleoliad y gwrandawiad. Byddwch wedi cael amser hefyd. Mae tribiwnlysoedd yn gwrando apeliadau rhwng 10am a 12:45pm a rhwng 2pm a 4:45pm o ddydd Llun i ddydd Gwener, ac ar benwythnosau mewn rhai lleoliadau. O dro i dro, gellir parhau tu hwnt i'r oriau hynny i gwblhau apêl sydd wedi cychwyn. Mewn sesiwn bore neu brynhawn, bydd gan y tribiwnlys fel arfer rhwng tair a phum apêl i'w gwrando ar yr amserlen, yn dibynnu ar y math o achos dan sylw. Yr amser sydd ar eich rhybudd o wrandawiad yw'r amser y disgwylir y bydd eich gwrandawiad yn cael ei gynnal.

**Teithio i'r gwrandawiad**

Os oes arnoch angen help gyda chostau teithio, gall GLlTEM ad-dalu costau teithio rhesymol ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus neu gerbyd modur preifat. Gallwch wneud cais am hyn drwy lenwi ffurflen hawlio ar ôl eich gwrandawiad a bydd taliad yn cael ei wneud i'ch cyfrif banc. Mewn amgylchiadau eithriadol iawn, bydd GLlTEM yn talu costau teithio cyn y gwrandawiad.

Bydd angen ichi gadw unrhyw dderbynebau a thocynnau teithio i brofi eich bod wedi eu prynu a chynnwys y rhain gyda'ch hawliad. Os na allwch ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, er enghraifft oherwydd anabledd, gall GLlTEM awdurdodi taliad am ffi tacsi, ond dim ond os yw hyn wedi'i gytuno ymlaen llaw. Bydd eich rhybudd o wrandawiad yn esbonio'r rheolau ynghylch hawlio costau teithio.

Dylech gynllunio eich taith fel eich bod yn cyrraedd o leiaf 15 munud cyn dechrau'r gwrandawiad. Dylech fynd gyda chi ymateb y DWP a chopïau gwreiddiol o unrhyw ddogfennau yr ydych wedi eu hanfon atom fel tystiolaeth.

Er budd diogelwch y cyhoedd, fe gynhelir gwiriadau diogelwch yn ein lleoliadau, a byddwch yn cael eich chwilio fel rhan o hyn.

Os ydych yn debygol o fod yn hwyr ar gyfer eich gwrandawiad, cofiwch ein ffonio ac fe rown wybod i'r tribiwnlys.

Os ydych wedi penderfynu yn y pen draw i beidio â dod i'r gwrandawiad, dylech ein ffonio i roi gwybod inni. Mae gennych hawl i wneud hyn, ond mae o gymorth os ydym yn gwybod am hyn fel nad yw'r tribiwnlys yn aros amdanoch ar y diwrnod ac nad yw ein staff yn gwastraffu amser yn ceisio cysylltu â chi i weld a ydych yn hwyr am ryw reswm.

**Yn y gwrandawiad**

Pan fyddwch yn cyrraedd lleoliad y tribiwnlys, bydd Clerc y Tribiwnlys yn dod i gwrdd â chi. Mae Clerc y Tribiwnlys yn aelod o staff GLlTEM sydd wedi'i benodi i sicrhau bod gwrandawiadau'n mynd rhagddynt mor rhwydd â phosib. Cyfrifoldeb y clerc yw esbonio'r broses ichi, ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych, delio â hawliadau am gostau teithio neu gostau eraill a delio â'r tasgau gweinyddol sy'n gysylltiedig â'ch gwrandawiad. Mae'n rhaid i'r clerc gadw mewn cysylltiad â'r tribiwnlys hefyd, gan ddweud wrthynt pwy sydd wedi cyrraedd a chynorthwyo'r tribiwnlys gyda theipio'r hysbysiad o benderfyniad a delio ag unrhyw waith papur. Mae'r clerc hefyd yn cadw mewn cysylltiad â swyddfa'r tribiwnlys, gan ddelio â negeseuon funud olaf a geir dros y ffôn, megis negeseuon gan bobl sy'n rhedeg yn hwyr.

Bydd y tribiwnlys yn gwneud pob ymdrech i gychwyn eich gwrandawiad ar yr amser sydd ar eich rhybudd o wrandawiad, ond oherwydd nad yw'n bosib bob amser rhagweld pa mor hir fydd pob apêl yn para, efallai y bydd yr amser cychwyn ychydig yn hwyrach.

Pan fyddwch yn cyrraedd, bydd y clerc yn mynd â chi i ystafell aros ac yn rhoi syniad ichi o ba bryd y bydd eich gwrandawiad apêl yn cychwyn. Bydd y clerc yn delio ag unrhyw hawliad am gostau sydd gennych ac unrhyw ymholiadau funud olaf ynghylch trefniadau'r gwrandawiad. Mae croeso ichi ofyn i'ch clerc unrhyw gwestiynau ynghylch y gwrandawiad a'r broses. Ni all y clerc rhoi cyngor ichi ar eich apêl neu sut y dylech gyflwyno eich achos.

Bydd y clerc hefyd yn bresennol o dro i dro yn ystafell y tribiwnlys yn ystod y gwrandawiad rhag ofn y bydd angen cymorth gweinyddol ar y tribiwnlys. Nid yw'r clerc yn cymryd unrhyw ran ym mhroses benderfynu'r tribiwnlys.

Fel sy'n wir am y mwyafrif o adeiladau'r llywodraeth, bydd swyddog diogelwch hefyd yn bresennol ar y safle.

**Gwrandawiadau o Bell**

Bwriedir i'r wybodaeth isod ddarparu arweiniad i'r holl bartïon sy'n ymwneud â'r apêl.

Mae GLlTEM yn cynyddu'r defnydd a wneir o'r ffôn, fideo a thechnolegau eraill i allu cynnal gymaint â phosib o wrandawiadau o bell. Gellir dod o hyd i arweiniad llawn ar sut i ymuno â gwrandawiadau dros y ffôn neu drwy gysywllt fideo ar Gov.uk

Y Barnwr fydd yn penderfynu a ddylid cynnal y gwrandawiad drwy gyswllt fideo neu dros y ffôn, a bydd yn caniatáu hynny os yw'n fodlon ei fod er lles cyfiawnder i bawb sy'n rhan o'r achos. Byddwn yn anfon rhybudd o wrandawiad atoch os bydd eich gwrandawiad yn cael ei gynnal drwy gyswllt fideo neu dros y ffôn. Bydd y rhybudd yn cynnwys yr holl wybodaeth fydd ei hangen arnoch i gymryd rhan yn y gwrandawiad a bydd yn cadarnhau dyddiad ac amser y gwrandawiad.

Os cynhelir eich gwrandawiad drwy gyswllt fideo, byddwn yn gofyn ichi am eich cyfeiriad e-bost i ni allu anfon gwahoddiad atoch i'r gwrandawiad fideo. Os ydyw gennym yn barod, efallai y bydd y rhybudd o wrandawiad yn cynnwys dolen we i ymuno â'r gwrandawiad. Os nad yw gennym, byddwn yn gofyn amdano yn y rhybudd o wrandawiad ac yn anfon neges e-bost ar wahân atoch gyda'r ddolen pan fyddwn wedi'i gael gennych. Gwiriwch eich ffolder 'spam' os nad ydych wedi'i gael.

Os cynhelir eich gwrandawiad dros y ffôn, byddwn yn eich ffonio amser y gwrandawiad. Efallai y byddwn yn defnyddio rhif ffôn anhysbys i'ch ffonio. Os ydych yn defnyddio gwasanaeth gwahardd galwadau, dylech ei droi i ffwrdd i ni allu eich ffonio.

Defnyddiwch y manylion cyswllt yn eich rhybudd o wrandawiad i ddweud wrthym cyn gynted â phosib:

- beth yw'r manylion cyswllt yr hoffech inni eu defnyddio;
- os ydych eisiau rhywun gyda chi sydd ddim yn eich cynrychioli, er enghraifft, gweithiwr cefnogi;
- os ydych angen cyfieithydd neu gefnogaeth i allu ymuno â'r gwrandawiad, neu os oes rheswm pam na allwch ymuno; megis:
- dim mynediad at gyfrifiadur neu ddyfais symudol;
- dim mynediad neu fynediad cyfyngedig â'r rhyngrwyd;
- anabledd sy'n golygu eich bod angen cymorth gyda'r gwrandawiad drwy gyswllt fideo.

Bydd y tribiwnlys yn ystyried eich cais ac yn gwneud popeth o fewn ei allu i sicrhau eich bod yn gallu cymryd rhan yn y gwrandawiad. Gallai hyn olygu y byddwch yn ymuno mewn ffordd wahanol. Os nad yw hyn yn bosibl, efallai y byddwn yn gohirio'r gwrandawiad.

**Cyn eich gwrandawiad o bell**

rhaid ichi:

- benderfynu lle byddwch yn eistedd ar gyfer y gwrandawiad, dylai fod yn lle distaw a phreifat;
- gadewch i unrhyw un arall sydd yno â chi wybod na ddylent ymyrryd â chi yn ystod y gwrandawiad;

- gwnewch yn siŵr bod batri eich dyfais yn llawn neu ei bod wedi'i phlwgio i mewn i gyflenwad trydan, fel na fyddwch yn colli cysylltiad yn ystod y gwrandawiad;
- dylech sicrhau bod unrhyw ddogfennau y byddwch eu hangen ar gyfer y gwrandawiad yn barod ymlaen llaw;
- trowch eich ffôn symudol i ffwrdd neu unrhyw beth arall a allai darfu arnoch;
- dylech fod yn barod o leiaf 15 munud cyn y gwrandawiad.

Os ydych yn cymryd rhan mewn gwrandawiad gyda chynrychiolydd, cytunwch cyn y gwrandawiad sut y byddwch yn cyfathrebu'n gyfrinachol.

Byddwn yn gofyn ichi dyngu llw neu gadarnhau pan fyddwch yn rhoi tystiolaeth. Mae llw yn addewid eich bod yn dweud y gwir. Os ydych eisiau tyngu'r llw hwn gan ddefnyddio llyfr sanctaidd neu ysgrythur, gwnewch yn siŵr ei fod gennych.

Os ydych yn ymuno drwy gyswllt fideo:

- gwiriwch fod y meddalwedd cywir ar eich dyfais a'ch bod yn gwybod sut i ymuno â'r gwrandawiad;
- profwch yr offer fel eich bod yn gwybod ei fod yn gweithio;
- gwisgwch yr un math o ddillad a phetaech yn dod i adeilad llys neu dribiwnlys;
- sicrhewch fod cefndir plaen tu ôl ichi;
- eisteddwch gyda'r golau o'ch blaen, fel nad oes cysgod ar eich wyneb;
- sicrhewch y gallwn weld eich wyneb a'ch ysgwyddau.

**Yn ystod y gwrandawiad o bell**

Bydd gwrandawiadau o bell yn dilyn yr un broses a phe baent yn cael eu cynnal mewn adeilad. Ar ddechrau'r gwrandawiad, bydd y barnwr yn egluro beth fydd yn digwydd.

Efallai y bydd y barnwr yn gofyn cwestiynau ichi i wneud yn siŵr eich bod wedi deall. Mae'n bwysig eich bod yn gadael i'r barnwr wybod os nad ydych yn deall rhywbeth neu os ydych angen seibiant.

I osgoi tarfu ar y gwrandawiad, trowch eich microffon i ffwrdd os yw hyn yn bosib fel nad yw'r tribiwnlys yn clywed sŵn yn y cefndir neu sgyrsiau eraill.

Mewn gwrandawiad fideo pan fydd eich fideo ymlaen, bydd pawb arall sy'n rhan o'r gwrandawiad yn gallu eich gweld, felly byddwch yn ymwybodol o'ch iaith corff a'ch ymddygiad os byddwch yn siarad ai peidio.

Os ydych yn cael problemau technegol neu os na allwch ymuno â'r gwrandawiad ar y diwrnod, ffoniwch ni ar 0300 303 5177.

**Rheolau gwrandawiad o bell**

Rhaid i bawb gymryd gwrandawiadau o bell yr un mor ddifrifol â phe baent mewn adeilad tribiwnlys. Dylid dilyn y rheolau canlynol:

- dim ond yfed dŵr;
- peidio bwyta;
- dim ysmygu neu e-sigarets;
- dilyn cyfarwyddiadau'r tribiwnlys;
- bod ar eich pen eich hun oni bai eich bod wedi cael caniatâd i wneud fel arall.

Mae'n drosedd i recordio, cyhoeddi manylion neu dynnu lluniau o wrandawiad tribiwnlys heb ganiatâd.

**Y Tribiwnlys**

Mae'r tribiwnlys wedi'i ffurfio o aelodau o banel barnwrol a benodir gan Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd. I gael eu penodi, mae'n rhaid i aelodau'r panel fod wedi cymhwyso yn y gyfraith, meddygaeth neu gyfrifyddiaeth neu ym maes anableddau, a meddu ar rinweddau personol sy'n briodol i unigolion mewn swyddi barnwrol. Mae bod yn annibynnol a diduedd ymysg y rhinweddau hynny.

Mae cyfansoddiad y tribiwnlys yn amrywio yn dibynnu ar y math o achos dan sylw.

Ar gyfer apeliadau cynhaliaeth plant, bydd y tribiwnlys yn cynnwys barnwr a gall hefyd gynnwys cyfrifydd lle bo angen arbenigedd ariannol.

Mae cyfansoddiad y tribiwnlys wedi'i lunio yn unol â'r gyfraith. Nid oes gennych yr hawl i ddewis.

Os ydych yn adnabod aelod o'r tribiwnlys sy'n gwrando eich apêl, dylech ddweud wrth y tribiwnlys ar ddechrau'r apêl oherwydd efallai y bydd yn amhriodol i'r unigolyn hwnnw fod yn rhan o'ch achos. Yn yr un modd, os bydd aelod o'r tribiwnlys yn eich adnabod chi, ni fyddant yn gallu ystyried eich achos.

**Eraill fydd yn bresennol**

Gall y DWP benderfynu anfon cynrychiolydd (a elwir yn 'Swyddog Cyflwyno'). Nid ydynt yn anfon Swyddog Cyflwyno ym mhob achos. Os nad ydynt yn anfon swyddog, gall y tribiwnlys benderfynu bwrw ymlaen â'r apêl heb Swyddog Cyflwyno.

Yn ôl y gyfraith, mae gwrandawiadau tribiwnlys yn agored i'r cyhoedd, ond mae'n deg dweud ei fod yn anarferol iawn i aelod o'r cyhoedd fod yn bresennol. Gall y naill barti neu'r llall ofyn i'r tribiwnlys wahardd y cyhoedd rhag dod i'r gwrandawiad er budd eich preifatrwydd personol. Bydd y penderfyniad am gais yn cael ei wneud gan farnwr.

**Trefn y Tribiwnlys**

Mae tribiwnlysoedd:

- Yn gweithredu o fewn set o reolau a osodir gan y gyfraith;
- Yn gweithredu'n annibynnol ar y llywodraeth;
- Yn farnwyr cwestiynau ynghylch ffeithiau a'r gyfraith;
- Yn penderfynu ar ffeithiau ar sail gwrando a phrofi tystiolaeth;
- Yn gorfod bod yn deg â'r ddwy ochr neu bob ochr.

**Y gwrandawiad tribiwnlys**

- Bydd panel y tribiwnlys fel arfer yn eistedd tu ôl i fyrddau, gan wynebu byrddau eraill lle bydd bob parti a'u cynrychiolwyr (os oes ganddynt un) yn eistedd. Mae hefyd yn bosib y gall un neu fwy o bartïon fynychu trwy gyswllt fideo a/neu dros y ffôn;
- Nid oes neb yn gwisgo wig na gŵn;
- Fel arfer, gelwir aelodau'r tribiwnlys yn Mr neu Mrs/Miss/Ms neu Dr. Fodd bynnag, mae croeso i barti alw'r barnwr ar y panel yn "barnwr" os ydynt yn dymuno gwneud hynny;
- Mae pobl yn rhoi tystiolaeth wrth eistedd wrth fwrdd, nid o flwch tystion;
- Fel arfer, nid yw tystiolaeth yn cael ei rhoi ar lw neu gadarnhad. Fodd bynnag, gall y barnwr benderfynu y dylid rhoi tystiolaeth ar lw mewn achos unigol;
- Wrth wrando tystiolaeth, bydd y tribiwnlys ei hun yn arwain o ran gofyn cwestiynau.

Mater i'r Barnwr Tribiwnlys yw penderfynu sut y cynhelir y gwrandawiad. Mae'r gyfraith yn rhoi'r pŵer hwnnw i'r Barnwr. Bydd trefn y gwrandawiad yn amrywio o un achos i'r llall, yn dibynnu ar natur y materion i'w penderfynu. Mae'r canlynol yn ddisgrifiad cyffredinol o wrandawiad arferol:

**Cyflwyniadau**

Bydd y Barnwr Tribiwnlys yn cyflwyno pawb sy'n bresennol ac yn dweud sut byddant yn cymryd rhan yn yr achos, ac yn gwirio bod unrhyw wasanaethau cyfieithu neu arwyddo sydd eu hangen yn addas. Bydd y Barnwr hefyd yn sicrhau bod gan bawb yr holl setiau papurau angenrheidiol. Lle bo'n bosibl, bydd y gwrandawiad yn cael ei recordio, a dyma fydd 'y cofnod o'r achos'. Os nad oes modd recordio'r achos, bydd y Barnwr yn gwneud nodiadau ffurfiol o'r achos a dyma fydd 'y cofnod o'r achos'.

## Datganiadau agoriadol

Bydd y Barnwr Tribiwnlys yn crynhoi'r materion yn yr apêl yn ôl y papurau ac yn cytuno â'r partïon sy'n bresennol beth y mae angen rhoi sylw iddo yn y gwrandawiad ac ym mha drefn. Mae hwn yn gyfle i gynrychiolwyr wneud datganiad agoriadol yn amlinellu eu hachos, os yw'r Barnwr Tribiwnlys yn eu gwahodd i wneud hynny.

## Rhoi tystiolaeth

Mewn tribiwnlys, lle mae'n anghyffredin i unrhyw ochr fod â chynrychiolydd cyfreithiol, mae'r tribiwnlys yn cymryd y cyfrifoldeb am ofyn y cwestiynau. Cofiwch y pwyntiau canlynol:

- Mae'r tribiwnlys yn debygol o fod eisiau canolbwyntio ar y materion sy'n destun dadl, felly peidiwch â phoeni os nad yw'r tribiwnlys yn gofyn cwestiynau ynghylch pob agwedd ar eich achos;
- Os oes anghysondeb yn y dystiolaeth (er enghraifft, efallai eich bod wedi dweud un peth yn eich ffurflen hawlio ond rydych yn dweud rhywbeth gwahanol wrth y tribiwnlys), mae'r tribiwnlys yn debygol o ofyn cwestiynau a allai fod yn eithaf treiddgar i geisio canfod beth yw'r gwir ffeithiau;
- Bydd y tribiwnlys yn gwneud ei orau i sicrhau nad ydych yn anghofio neu'n methu'r holl bwyntiau yn eich achos;
- Mae rhoi tystiolaeth yn rhan ddifrifol a phwysig o'r gwrandawiad. Ni ddylai cynrychiolwyr nac eraill darfu arnoch chi na'r tribiwnlys. Bydd pawb yn cael ei dro i siarad ar yr adeg briodol;
- Ar ôl i'r tribiwnlys orffen gofyn ei gwestiynau, os ydych yn meddwl ei fod wedi methu rhywbeth, dywedwch wrth y Barnwr. Bydd y Barnwr hefyd yn caniatáu cwestiynau perthnasol gan unrhyw gynrychiolwyr.

## Tystion

Bydd y tribiwnlys yn gwrando tystiolaeth gan unrhyw dystion eraill yn dilyn eich tystiolaeth chi a thystiolaeth yr unigolyn arall sy'n rhan o'r achos cynhaliaeth plant.

## Datganiadau cloi

Ar ôl i bawb orffen rhoi tystiolaeth, bydd y Barnwr yn gwahodd datganiadau cloi. Mae hwn yn gyfle i gynrychiolwyr yr holl bartïon grynhoi'r achos.

### Y penderfyniad

Bydd y tribiwnlys yn ystyried y dystiolaeth a'r datganiadau yn breifat. Bryd hynny, bydd clerc y tribiwnlys yn mynd â chi yn ôl i'r ystafell aros. Yn y mwyafrif o achosion bydd y Barnwr yn eich gwahodd i aros tra bydd y tribiwnlys yn dod i benderfyniad. Fodd bynnag, os bydd y Barnwr yn credu ei bod yn annhebygol y gellir gwneud penderfyniad yn eithaf cyflym, rhoddir gwybod ichi y bydd y penderfyniad yn cael ei anfon atoch drwy'r post. Os bydd y tribiwnlys yn gallu rhoi ei benderfyniad ar y diwrnod, byddwch yn cael eich gwahodd yn ôl i'r ystafell tribiwnlys i'r Barnwr gyhoeddi ei benderfyniad. Byddwch yn cael hysbysiad o benderfyniad wedi'i deipio hefyd. Bydd yr apêl yn dod i ben ar ôl cyhoeddi'r penderfyniad ac ni fydd trafodaeth bellach.

### Gohirio

Efallai y bydd y tribiwnlys yn dod i'r casgliad na all wneud penderfyniad ar y diwrnod a bod rhaid gohirio. Wrth ohirio, bydd y tribiwnlys yn ceisio pennu dyddiad ar gyfer y gwrandawiad nesaf a rhoi cyfarwyddiadau i leihau'r risg o unrhyw oedi pellach cyn cwblhau'r achos.

Amlinelliad cyffredinol yw'r disgrifiad uchod. Weithiau bydd y tribiwnlys wedi ffurfio barn wrth ddarllen papurau'r apêl fod yr apêl yn troi o gwmpas un mater a gall benderfynu canolbwyntio ar y pwynt hwnnw o ddechrau'r gwrandawiad.

## 12. Ar ôl i'r tribiwnlys wneud ei benderfyniad

### Gweithredu'r penderfyniad

Os ydych wedi cael gwrandawiad llafar, bydd hysbysiad yn rhoi penderfyniad y tribiwnlys yn cael ei roi i chi ac i'r DWP, neu'n cael ei anfon atoch, ar ddiwrnod y gwrandawiad. Os daethpwyd i benderfyniad ynghylch eich achos ar sail y papurau, byddwch yn cael hysbysiad o'r penderfyniad drwy'r post ddiwrnod neu ddau ar ôl y gwrandawiad ac anfonir copi o'r penderfyniad i'r DWP hefyd.

Nid oes gan y tribiwnlys bwerau cyfreithiol i orfodi ei benderfyniadau. Os yw'r penderfyniad yn ei wneud yn ofynnol i'r rhiant arall dalu cynhaliaeth plant, ni fydd y tribiwnlys yn gallu eich cynorthwyo i wneud iddynt dalu.

Yn ymarferol, bydd y DWP yn gweithredu penderfyniad y tribiwnlys yn y mwyafrif llethol o achosion a'r unig adeg y byddent yn gwrthod gwneud hyn fyddai os ydynt yn bwriadu apelio yn erbyn penderfyniad y tribiwnlys.

Ar ôl i'r tribiwnlys wneud ei benderfyniad, dylech gyfeirio unrhyw ymholiadau ynghylch sut fydd y penderfyniad yn cael ei weithredu at y DWP, gan mai nhw sydd â chyfrifoldeb am weithredu penderfyniad y tribiwnlys. Dylech ddisgwyl ychydig ar ôl i'r DWP gael y penderfyniad, tra byddant yn ystyried y canlyniad a'r camau nesaf.

**Cywiriadau**

Os ydych o'r farn fod yr hysbysiad o benderfyniad yn cynnwys gwall damweiniol (er enghraifft, efallai bod y Barnwr wedi ysgrifennu 2020 yn lle 2021 fel dyddiad cychwyn y dyfarniad), cewch ysgrifennu atom i ofyn am gywiriad. Mae'r rheol hon yn berthnasol i bethau y gellid eu galw'n 'llithriad ysgrifbin' yn unig.

**Rhoi o'r naill du**

Gallwch wneud cais i benderfyniad y tribiwnlys gael ei roi o'r naill du (hynny yw, ei ganslo) ac i wrandawiad arall gael ei drefnu mewn amgylchiadau cyfyngedig. Y rhain yw:

- Ni chafodd dogfen sy'n ymwneud â'r achos (er enghraifft, rhybudd o'r gwrandawiad) ei hanfon neu ni wnaeth gyrraedd mewn pryd; neu
- Bod gwrandawiad wedi cael ei drefnu ond nid oeddech chi (neu eich cynrychiolydd neu'r DWP) yn bresennol a bod y Tribiwnlys yn derbyn yr esboniad am ddiffyg presenoldeb; neu
- Bod anghysondeb arall wedi codi o ran y trefniadau.

Bydd y tribiwnlys yn rhoi'r penderfyniad o'r naill du os yw un o'r amodau uchod yn berthnasol a bod y tribiwnlys yn ystyried ei bod yn gyfiawn gwneud hynny.

Rhaid gwneud cais ysgrifenedig i benderfyniad gael ei roi o'r naill du cyn pen mis o ddyddiad cyhoeddi'r hysbysiad o benderfyniad neu'r datganiad o'r rhesymau, pa bynnag un yw'r hwyraf. Gall y tribiwnlys ymestyn y terfyn amser hwn os oes rhesymau da dros wneud hynny.

**Apêl bellach**

Gallwch wneud cais i'r Uwch Dribiwnlys am ganiatâd i apelio yn erbyn penderfyniad y tribiwnlys. Cewch apelio ar sail 'gwall cyfreithiol' yn unig. Mae'r canlynol yn enghreifftiau o'r hyn y mae 'gwall cyfreithiol' yn ei olygu:

- Mi wnaeth y tribiwnlys gymhwyso'r gyfraith yn anghywir;
- Mi wnaeth y tribiwnlys gynnal yr achos heb ddilyn y drefn gywir;
- Methodd y tribiwnlys â chanfod y ffeithiau'n ddigonol neu roi rhesymau digonol dros ei benderfyniad.

Y cam cyntaf wrth wneud cais am ganiatâd i apelio yw gofyn am ddatganiad o resymau dros benderfyniad y tribiwnlys. Rhaid gwneud y cais am ddatganiad yn ysgrifenedig o fewn un mis i ddyddiad cyhoeddi'r hysbysiad o benderfyniad. Gall y tribiwnlys ymestyn y terfyn amser hwn. Bydd y datganiad wedi'i ysgrifennu gan Farnwr y Tribiwnlys a wrandawodd eich apêl.

Ar ôl ystyried y datganiad o'r rhesymau, os ydych o'r farn fod penderfyniad y tribiwnlys yn wallus o safbwynt cyfreithiol, cewch wneud cais am ganiatâd i apelio i'r Uwch Dribiwnlys. Rhaid i'r cais hwn fod yn ysgrifenedig. Gellir darparu ffurflen at y diben hwn ar gais. Mae gennych fis o ddyddiad cyhoeddi'r datganiad i wneud cais am ganiatâd. Gall y tribiwnlys ymestyn y terfyn amser hwn.

Uwch Farnwr Tribiwnlys fydd yn ystyried cais am ganiatâd i apelio. Gall y Barnwr:

- Roi caniatâd - os felly, cewch anfon eich apêl ymlaen i'r Uwch Dribiwnlys;
- Gwrthod caniatâd. Wedyn, bydd gennych yr opsiwn o ofyn i'r Uwch Dribiwnlys yn uniongyrchol am ganiatâd;.
- Penderfynu rhoi penderfyniad y tribiwnlys o'r naill du heb fod angen cyfeirio'r achos at yr Uwch Dribiwnlys. Gall y Barnwr ailbenderfynu'r achos neu drefnu bod tribiwnlys newydd yn ei wrando.

Os bydd yr apêl yn mynd ymlaen i'r Uwch Dribiwnlys, mae gan yr Uwch Dribiwnlys bŵer i roi penderfyniad y tribiwnlys o'r naill du a chyfeirio'r achos at dribiwnlys newydd, neu i newid y penderfyniad eu hunain.

Cofiwch, mae'r hawliau uchod i wneud cais am gywiriad, i roi o'r naill du, am ddatganiad o'r rhesymau ac am apêl bellach ar gael i'r DWP hefyd.